# Panel Annibynnol Goruchwylio A Chynghori Ar Hil Yn Y System Cyfiawnder Troseddol Yng Nghymru

Mae panel newydd wedi'i lansio ledled Cymru i weithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu systematig ac anfanteision a wynebwyd gan bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol.

Bydd y panel yn mynd ati'n rhagweithiol i herio, hyrwyddo a rhoi cyngor ar ddull Cymru o fynd i'r afael â hiliaeth.

Gan weithio ar draws yr heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyfiawnder Ieuenctid a'r gwasanaeth llysoedd; bydd y panel yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
**Criminal Justice in Wales**



## Chantal Patel

**Cadeirydd**


Athro Cyswllt ym maes Moeseg a'r Gyfraith yn y Gyfadran Meddygaeth, Gwyddorau Bywyd ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n darlithio'n helaeth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae Chantal wedi bod yn aelod gweithgar o'r gymuned ers iddi symud i Gymru ym 1974. Mae wedi bod â sawl swydd gyhoeddus yn y GIG a'r sector Tai. Hi oedd un o aelodau sefydlu'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd ac ar hyn o bryd mae'n ymddiriedolwr Cymdeithas Indiaidd De-orllewin Cymru yn Abertawe.

---


## Bharat Malkani

**Is-gadeirydd**

Mae Bharat yn Academydd yn Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, lle mae'n darlithio ac yn ymchwilio i bynciau hiliaeth; hawliau dynol; cyfiawnder troseddol; a chamweinyddu cyfiawnder. Mae Bharat hefyd yn aelod o Fwrdd Monitro Annibynnol CEM Eastwood Park. Daw ei ddiddordeb mewn hil a chyfiawnder troseddol o'i amser yn gweithio ar achosion cosb marwolaeth yn Unol Daleithiau America ryw 20 mlynedd yn ôl, a sut mae achosion o anghyfiawnder hiliol tebyg yn digwydd yn ein system cyfiawnder troseddol ein hunain.



---



## Hajer Newman

**Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd ac Ieuenctid Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru**

Mae Hajer yn gweithio i roi cymorth wedi'i dargedu, sy'n sensitif yn ddiwylliannol, i deuluoedd a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae Hajer yn cwblhau gradd mewn Cysylltiadau Rhyngwladol â diddordeb arbennig mewn cydraddoldeb hiliol ac mae hefyd yn aelod o Glymblaid Ffoaduriaid Cymru, sy'n cyfrannu profiad bywyd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Ngogledd Cymru. Mae'n mwynhau cerddoriaeth fyw ac yn aelod o grŵp canu yn Wrecsam.



## Jacob Senibo Henry

**Prif Swyddog Gweithredol ac un o sylfaenwyr Vibe Youth**

Daw Jacob â phrofiad gwerthfawr o'i waith fel rhan o Vibe Youth. Drwy ei brofiad personol, mae Jacob yn cynnig gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng cyfiawnder troseddol ac ymgysylltu â phobl ifanc. Yn ystod ei amser hamdden, mae Jacob yn hoffi treulio amser gyda'i deulu yn ogystal â dilyn bydysawd "Marvel".

## Martin Gallagher

**Teithiwr Gwyddelig sy'n ymgymryd â chymrodoriaeth PhD ar hyn o bryd, ac yn ymchwilydd ym Mhrifysgol Northumbria**

Mae Martin yn actifydd ymroddedig ac wedi gweithio mewn llawer o sefydliadau, fel Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, a'r Senedd, i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau y mae cymunedau'r Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu.





## Sy Joshua

**Tad i ddau o blant ifanc, wedi ei eni yng Nghaerdydd, ac yn falch o fod yn un o drigolion Bro Morgannwg**

Mae cyflawniadau academaidd Sy yn cynnwys Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol, Gradd Meistr mewn Rheolaeth a Gradd Baglor mewn Gwyddorau Cymdeithasol, ac ymunodd â Race Equality First fel Rheolwr Gwasanaethau yn 2020. Yn ei fywyd proffesiynol mae Sy yn defnyddio fframweithiau wedi'u hategu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gefnogi unigolion sy'n wynebu gwahaniaethu ac i lywio, darbwyllo a herio sefydliadau tuag at ddyfodol Gwrth-hiliol.

## Perminder Dhillon

**Hyfforddwr, ymgynghorydd ac addysgwr amlieithog**

Mae Perminder yn cefnogi sefydliadau i sicrhau eu perfformiad gorau posibl o ran cydraddoldeb. Fel menyw o gefndir Pwnjabeg sy'n byw yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, mae Perminder yn cynnig profiad gwerin gwlad, cymunedol a phroffesiynol i'r panel.



## Robiu Salisu



**Cyn-gadeirydd Rhwydwaith ym Mhrifysgol Bryste, Cyfarwyddwr Anweithredol Cartrefi Dinas Casnewydd ac Ymgynghorydd Cynhwysiant yn Advance HE**

Mae gan Robiu gefndir helaeth yn y maes ymgysylltu â'r gymuned a gweithio gyda grwpiau gwahanol. Mae gan Robiu brofiad eang o ymgysylltu cymunedol a gweithio gyda gwahanol grwpiau. Mae'n Ymarferydd Addysg Uwch profiadol â dros ddegawd o brofiad ym maes ymgysylltu â'r gymuned a chynhwysiant. Mae'n rhoi arweiniad sefydliadol a chyngor arbenigol yn rheolaidd ar egwyddorion ac arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn benodol materion sy'n effeithio ar hil ac ethnigrwydd yn y DU.

## Sunil Patel

**Arloeswr ac un o sylfaenwyr Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yng Nghymru**

Mae Sunil yn cynnig profiad o'r Swyddfa Gartref yn ogystal â rhedeg elusen. Drwy brofiad bywyd, mae Sunil yn deall yr effaith ddinistriol y gall hiliaeth ei chael ar hyder person. Yn ei amser hamdden, mae Sunil yn mwynhau treulio amser gyda'i deulu, gweithgareddau cymdeithasol a theithiau. Mae hefyd yn wirfoddolwr yn ei glwb pêl-droed a chlwb criced lleol.





## Moawia Bin-Sufyan

**Ynad mewn gwasanaeth**

Mae Moawia yn cynnig cyfoeth o brofiad cyhoeddus uwch i'r Panel. Mae'n gyn aelod o Awdurdod Heddlu De Cymru ac yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd, yn ogystal ag Uwch-asesydd Dethol ar gyfer yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona, gan wneud Moawia yn eiriolwr brwd dros newid ym maes plismona. Hefyd, mae gan Moawia rôl yng Ngholeg Gwent, Ambiwlans Sant Ioan, Tai Hafod, y Cenhedloedd Unedig, Llywodraeth Cymru, a Chwmnïau Lifrai Dinas Llundain.

## Ray Singh

**Cadeirydd presennol Cyngor Hil Cymru**

Mae Ray yn berson arloesol, deinamig, uchel ei gymhelliant a chanddo brofiad ac arbenigedd eang fel aelod bwrdd a chadeirydd. Mae Ray wedi cadeirio ymchwiliadau ffurfiol gyda'r Gwasanaeth Carchardai yn ogystal â Gwasanaeth Erlyn y Goron Arweiniodd Ray hefyd bwyllgor cynghori a edrychodd ar yr effaith anghymesur a gafodd y pandemig ar boblogaeth Du ac Asiaidd Cymru.





## Amana Baig

**Myfyriwr sydd wedi graddio'n ddiweddar, yn fyfyriwr Gradd Meistr ar hyn o bryd ac yn academydd cyhoeddedig sy'n angerddol dros roi yn ôl i'r gymuned**

Mae Amana yn cynnig ei phrofiad academaidd ynghyd â phrofiad ymarferol o fod yn gyn Gadét yr Heddlu, a chaiff ei mentora gan raglen Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal y Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig.